Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr - Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 27 Ebrill 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

66(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

2 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

I'w ateb gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Gareth Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am eithrio staff ategol cartrefi gofal o daliadau bonws y gweithwyr cartrefi gofal a'r gweithwyr gofal cartref?

4 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Twristiaeth

(60 munud)

NDM7990 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn dathlu cryfder Cymru fel cyrchfan o'r radd flaenaf i dwristiaid.

2. Yn gresynu at effaith ddinistriol cyfyngiadau COVID ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru.

3. Yn credu y bydd newidiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru i'r system ardrethu annomestig yn tanseilio llawer o fusnesau llety gwyliau.

4. Yn nodi data Cynghrair Twristiaeth Cymru sy'n dangos na fydd mwyafrif helaeth o fusnesau'n gallu bodloni'r meini prawf i fod yn gymwys fel busnes llety gwyliau.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) roi'r gorau i gynigion niweidiol ar gyfer treth dwristiaeth yng Nghymru;

b) cydnabod bod y rhan fwyaf o'r ymatebion i'w hymgynghoriad yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig i ardrethi annomestig ar gyfer llety gwyliau;

c) rhoi'r gorau i gynlluniau i ymestyn nifer y diwrnodau y mae'n rhaid gosod eiddo er mwyn bodloni'r gofyniad ardrethu annomestig.

Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:

Gwelliant 1 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod cryfder twristiaeth Cymru, sydd o'r radd flaenaf, ac yn croesawu'r cymorth sylweddol a roddwyd i'r diwydiant twristiaeth a gweithredwyr gan Lywodraeth Cymru drwy gydol pandemig COVID.

2. Yn cydnabod diffiniad Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig o dwristiaeth gynaliadwy: "Twristiaeth sy'n ystyried yn llawn ei heffeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn awr ac yn y dyfodol, gan ddiwallu

anghenion ymwelwyr, y diwydiant, yr amgylchedd a'r cymunedau sy'n croesawu ymwelwyr".

3. Yn cydnabod bod ardollau twristiaeth yn gyffredin ar draws y byd, a bod yr incwm ohonynt yn cael ei ddefnyddio er lles cymunedau lleol, twristiaid a busnesau, sydd wedyn yn helpu i wneud twristiaeth yn gynaliadwy ac yn llwyddiannus.

4. Yn croesawu'r ymrwymiad i gyflwyno ardollau twristiaeth lleol a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i godi ardoll dwristiaeth os byddant yn dewis gwneud hynny.

5. Yn nodi'r bwriad i gynnal ymgynghoriad sylweddol yn yr hydref yn 2022 fel rhan o broses ofalus o ddatblygu cynigion ar gyfer ardoll, a fydd yn cynnwys cymunedau, busnesau a gweithredwyr, ac yn nodi ymhellach y bydd y broses o drosi'r cynigion hynny yn ddeddfwriaeth yn destun craffu manwl a chymeradwyaeth gan y Senedd.

6. Yn croesawu penderfyniad y Senedd ar 22 Mawrth i gymeradwyo Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022, a gyflwynwyd fel rhan o ymrwymiad ehangach i fynd i'r afael â phroblemau ail gartrefi a thai anfforddiadwy sy'n wynebu llawer o gymunedau yng Nghymru ac i fynd i'r afael â'r argyfwng tai.

7. Yn croesawu'r ymrwymiad i weithredu ar yr ymgyngoriadau eang sydd wedi'u cynnal hyd yma i sicrhau bod trethi lleol yn gwahaniaethu rhwng llety hunanarlwyo go iawn ac eiddo domestig ac yn nodi bod ymgynghoriad technegol ar reoliadau drafft i ddiwygio'r meini prawf gosod eiddo ar gyfer llety hunanarlwyo, a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith tuag at gyflawni'r ymrwymiad hwn, wedi dod i ben ar 12 Ebrill; y mae'r ymatebion iddo wrthi'n cael eu dadansoddi.

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022

6 Dadl Plaid Cymru – Yr argyfwng costau byw a thai

(60 munud)

NDM7989 Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod yr argyfwng costau byw sy'n effeithio ar aelwydydd ledled Cymru yn cynyddu'r risg o ddigartrefedd.

2. Yn nodi bod gwerthoedd rhentu cyfartalog yng Nghymru wedi cynyddu i £726 y mis ym mis Mawrth 2022, i fyny 7.2 y cant o'i gymharu â mis Mawrth 2021

3. Yn nodi, er bod y lwfans tai lleol wedi'i gynllunio i gwmpasu'r 30 y cant isaf o aelwydydd yng Nghymru, mai dim ond 3.8 y cant o aelwydydd sy'n cael eu cwmpasu ganddo mewn gwirionedd.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddiwygio'r lwfans tai lleol i sicrhau ei fod yn gweithio i Gymru.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried argymhellion map ffordd End Youth Homelessness Cymru.

A Roadmap to Ending Youth Homelessness in Wales - End Youth Homelessness Cymru (Saesneg yn unig)

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod bod mwy o gartrefi gwag nag ail gartrefi yng Nghymru tan yn ddiweddar.

Gwelliant 2 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 3 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod y rôl bwysig y mae landlordiaid yn ei chwarae wrth ddarparu llety yng Nghymru.

Gwelliant 3 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 5 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a. ailgyflwyno hawl i brynu ddiwygiedig;

b. datblygu cynllun i Gymru gyfan i ddarparu cymhellion i sicrhau bod mwy o gartrefi gwag y mae angen eu hadnewyddu yn cael eu defnyddio unwaith eto;

c. ymateb i argymhellion map ffordd End Youth Homelessness Cymru;

d. diystyru cyflwyno rheolaethau rhent yng Nghymru.

7 Cyfnod pleidleisio

8 Dadl Fer

(30 munud)

NDM7988 Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Does unman yn debyg i gartref: tai amlfeddiannaeth ac ymrymuso cymunedol

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 3 Mai 2022

Eitem 1

Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 20/04/2022 i'w hateb ar 27/04/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Y GWEINIDOG CYLLID A LLYWODRAETH LEOL

Peter Fox *Mynwy*

1 OQ57912 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidog yr Economi ynghylch effaith Gorchymyn drafft Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022 Llywodraeth Cymru ar y diwydiant twristiaeth?

Sioned Williams *Gorllewin De Cymru*

2 OQ57934 **(e)**

Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i gefnogi'r gwaith o gyflwyno strategaethau adeiladu cyfoeth cymunedol wrth ddyrannu cyllidebau awdurdodau lleol yng Ngorllewin De Cymru?

Sam Rowlands *Gogledd Cymru*

3 OQ57910 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o nifer y seddi lle nad oes ond un ymgeisydd yn etholiadau llywodraeth leol Cymru?

Rhianon Passmore *Islwyn*

4 OQ57922 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Thrysorlys EM i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru y cyllid sydd ei angen arni i gefnogi pobl Islwyn drwy'r argyfwng costau byw?

Mark Isherwood *Gogledd Cymru*

5 OQ57916 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidog yr Economi ynghylch darparu cymorth ariannol i'r sector twristiaeth yng Ngogledd Cymru?

Ken Skates *De Clwyd*

6 OQ57937 **(e)**

Beth yw asesiad y Gweinidog o'r setliad llywodraeth leol a ddarperir i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol?

Tom Giffard *Gorllewin De Cymru*

7 OQ57908 **(e)**

Sut mae'r Gweinidog yn gweithio gydag arweinwyr cynghorau i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir ganddynt o fudd i'r cyhoedd?

Rhun ap Iorwerth *Ynys Môn*

8 OQ57935 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllideb Cyngor Sir Ynys Môn?

Carolyn Thomas *Gogledd Cymru*

9 OQ57928 **(e)** Datganodd yr Aelod fuddiant

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith ardoll brentisiaethau Llywodraeth y DU ar gyllid awdurdodau lleol?

Laura Anne Jones *Dwyrain De Cymru*

10 OQ57917 **(e)**

Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau tegwch o ran cyllid cynghorau?

Y GWEINIDOG MATERION GWLEDIG A GOGLEDD CYMRU, A'R TREFNYDD

Carolyn Thomas *Gogledd Cymru*

1 OQ57929 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gydnabod yn gyfreithiol ymdeimlad anifeiliaid yn y broses o lunio polisïau datganoledig?

Jenny Rathbone *Canol Caerdydd*

2 OQ57915 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu faint o fwyd o Gymru sy'n cael ei brosesu yng Nghymru?

Natasha Asghar *Dwyrain De Cymru*

3 OQ57924 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cydweithredu ag adrannau ac asiantaethau Llywodraeth y DU i ddiogelu lles anifeiliaid drwy atal mewnforio cŵn yn anghyfreithlon drwy borthladdoedd Cymru?

Heledd Fychan *Canol De Cymru*

4 OQ57920 **(w)**

Pa asesiad mae'r Llywodraeth wedi'i wneud o effaith anallu pobl ar incwm isel i dalu costau milfeddyg a bwyd i'w hanifeiliaid anwes ar les anifeiliaid?

Joel James *Canol De Cymru*

5 OQ57907 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr effaith a gaiff smyglo cŵn bach yn anghyfreithlon drwy borthladdoedd Cymru ar les anifeiliaid yng Nghymru?

Sam Rowlands *Gogledd Cymru*

6 OQ57909 **(e)**

Sut mae'r Gweinidog yn gweithio gyda Gweinidog yr Economi i sicrhau bod Gogledd Cymru yn elwa o ganlyniadau economaidd sy'n gyfartal â gweddill Cymru?

Cefin Campbell *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

7 OQ57931 **(w)**

Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi ei wneud o effaith y rhyfel yn Wcráin ar y sector amaethyddiaeth yng Ngorllewin a Chanolbarth Cymru?

Laura Anne Jones *Dwyrain De Cymru*

8 OQ57918 **(e)**

Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i gefnogi ffermwyr llaeth yng Nghymru?

Rhun ap Iorwerth *Ynys Môn*

9 OQ57936 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y diwydiant bwyd môr yn Ynys Môn?

Vikki Howells *Cwm Cynon*

10 OQ57932 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector bwyd a diod yng Nghymru?

Janet Finch-Saunders *Aberconwy*

11 OQ57930 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gydnabod ymdeimlad anifeiliaid yng nghyfraith Cymru?